CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**06.02.25**
**6:30 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** RJ (Cadeirydd) GW, JAJ; DAW; EO; EY; RY;IW;AR<br>**Ymddiheuriadau:** TAJ;DP;JOJ;LLMH;<br>**Mynychu:** Cyng Llio Angharad; SWR<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod gan nodi yr ymddiheuriadau uchod. |
| 2 | **Datgan Diddordeb**<br>Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb |
| 3 | **Cofnodion 09.01.25**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 09.01.25 fel rhai cywir (EO/DAW)<br><br>**Materion yn Codi**<br>**Cyflenwad Dwr yng Ngharmel –** adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu a swyddfa'r Aelod Seneddol a'u bod hwy am ofyn i Dwr Cymru gysylltu a'r Clerc. Dim i law hyd yma - Clerc i ddilyn i fyny<br><br>**Materion Priffyrdd –** wedi ail-anfon y Cynllun Gweithredu ond dim ymateb na dyddiad am ymweliad safle – Clerc i ddilyn fyny eto gyda chymorth Cyng LLA<br>Cytunwyd i'r Clerc holi am archebu bocsys halen melyn trwy CSYM<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn – 09.01.25 |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| **4** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>• **Gohebiaeth gan Cwmni Rheilffordd Canol Mon** – rhannodd y Clerc ohebiaeth dderbyniwyd yn diweddaru'r sefyllfa gyda'r lein a'r gwaith gwirfoddol cynnala chadw. Trafodwyd y ffaith bod gan y Cwmni oriadau i giat ffens y Cyngor Cymdeithas. Cytunwyd i beidio newid y cloeon er mwyn hyrwyddo perthynas dda. Nododd y Clerc bod y Cwmni awydd defnyddio y stafell fach ar safle Stesion i hyrwyddo eu gwaith. Nododd hefyd ei bod wedi annog trafodaeth rhwng y Cwmni, Tenant y Caffi a CC Llan cyn cytuno unrhyw benderfyniad.<br><br>Cytunwyd hefyd i'r Clerc gysylltu ag Iwan Roberts i drwsio ffens gen Ty Stesion ar y safle.<br><br>• **Trwsio'r Cloc –** nodwyd bod Cwmni Smiths of Derby wedi mynd a'r Cloc a'r bysedd i ffwrdd i gael eu harchwilio. Diolchodd y Clerc i GW/DAW am hwyluso'r ymweliad<br><br>• **Ceir wedi eu gadael trwy'r pentref –** Clerc i adrodd i John Roberts CSYM am car BMW o flaen 1 Y Garth; car gwyn Ford Focus ar flocau yng ngwaelod Y Garth; Awdi yn safle'r Stesio a Nissan Quashcai du yn Stryd Tiwdor.<br><br>• **Giatiau'r Fynwent -** DAW a'r Clerc wedi cyfarfod a Rob Owen i geisio pris am y giat fawr yn unig. Rhannwyd lluniau a phrisiau. Gan fod yn uwch na'r £1500 o fewn y Polisi Cyllid, Clerc i gael pris gan Eric Davies a Dyfed Pritchard hefyd. O ran y ddwy giat fochyn mae swyddog Llwybrau Cyhoeddus CSYM am wneud ymweliad safle.<br><br>Nodwyd hefyd bod y Gofrestr Tir yn nodi mai CSYM yw perchennog y Fynwent. Cytunwyd i'r Clerc holi ymhellach am hyn gyda Dylan Edwards CSYM<br><br>• **Camerau CCTV yn y Stesion –** Nododd y Clerc ei bod wedi trefnu gyda 4 Cwmni i gael rhagamcanbris. Trafod y canlyniad yng nghyfarfod mis Mawrth.<br><br>• **Bwrdd Snwcer –** nododd y Cadeirydd ei fod wedi gwerthu'r trydydd bwrdd snwcer bellach am y £100 a gytunwyd ac yn bwrw 'mlaen gyda'r trefniadau i'r prynwr ei symud o'r Ysgol. Diolchwyd i RJ am ei waith yn gwaredu'r 3 bwrdd. |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau ers 09.01.25**<br>• Cyflog Clerc – Ionawr = £676.09 yn cynnwys 3 x ZOOM<br>• Gp Fire Service – arolwg tan y Caffi £57.60<br>• JRB – bagiau baw ci £77.88<br>• Scottish Power – trydan Uned 1 £98.41 |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | • MAT Services – glanhau ffliwiau canopi Caffi £400.00<br>• Scottish Power - ??? £6.80<br>• Costau Cefnogi Aelodau CC Llan - £150 X 5 = £750<br>• RPO Williams Prynu, gosod a thynnu lawr Coeden Nadolig y pentref £240<br>• HMRC – Hyd Tach Rhagfyr £495.20<br>• Emma Dixon – cydnabyddiaeth cyflenwad dwr i Fynwent Peniel £20.00<br>• Gwyn Annwyl – cydnabyddiaeth am wasanaeth Sul y Cofio £30<br><br>**Biliau cyfredol** - dim i law<br><br>**Cyfrif Cyfredol**: : £ 4123.20<br>**Cyfrif Cadw** £39006.21<br><br>Cytunwyd i'r Clerc holi'r Banc am ffyrdd o fuddsoddi amgen i dderbyn gwell llog.<br>Diolchodd y Clerc i JAJ am ei gymorth i sicrhau gwell telerau i'n cyfrifon ynni. Mae 5 cyfrif trydan bellach yn nwylo Nwy Prydain oedd a'r gwerth gorau am arian. |
| **6** | **Materion Cynllunio**<br>**Pandy Llannerchymedd –** Clerc i holi'r cymydog am eu barn a chyflwyno ymateb priodol.<br>**Ail osod Paneli Gwybodaeth ar safle'r Stesion** – dim gwrthwynebiad |
| **7.** | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –**<br>Cyfeiriodd LLA at y canlynol<br>• Ymgynghoriad ar Gyllideb CSYM – cau yfory ond annogaeth i ymateb<br>• Ymgynghoriad ar Gynllun Trafnidaeth CSYM – dyddiad cau 14.4.25 eto annogaeth i ymateb gan fod pryder wedi ei nodi gan CC Llan am ddiffyg trafnidiaeth – linc yma https://northwalesregionaltransportplan.virtual-engage.com/ |
| **8.** | **Materion Safleoedd**<br>**Unedau Tan y Foel –** y broses o werthu y llain a'r ddau gompowd yn mynd rhagddo<br>**Safle'r Stesion** –. arwyddion newydd ar eu ffordd<br>**Lawnt Fowlio** – angen symud un o'r biniau i'r Cae Astro<br>**Clwb Peldroed –** dim i law<br>**Mynwentydd** – prisio giatiau yn mynd rhagddo<br>**Cae Gofeb –** dim i law |
| *Daeth y cyfarfod i ben am 8:15* | |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn  LL71 8EG**
Ffôn:  01248  470383